


# **Polisi Gwrth-Fwlio Anti-Bullying Policy**



**YSGOL BOTWNNOG**

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:***  
***Dyddiad Adolygu/Review Date:***

***Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:*** \_\_\_\_\_

***Dyddiad:*** \_\_\_\_\_

## 1. Cyflwyniad

Mae gan bob disgybl yr hawl i deimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn gynwysedig, a'r hawl i weithio mewn awyrgylch heb deimlo bygythiad nac ofn. Y mae'r Ysgol yn cydnabod yr effaith emosiynol y gall bwlio ei gael ar hunan werth a hunan hyder person ac, o ganlyniad, ar ei allu i ddysgu'n effeithiol. Y mae perthynas rhwng cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb a bodlondeb emosiynol plant a phobl ifanc yn holl bwysig. Rhoddir cryn bwyslais ar sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol am resymau addysgol yn ogystal â moesol. Bydd cymuned yr ysgol yn hybu awyrgylch gwrth-fwlio.

Mae bwlio, o unrhyw fath, yn annerbyniol a bydd unrhyw un sydd yn dioddef bwlio yn derbyn cefnogaeth lawn. Ysgrifennwyd y Polisi hwn yng nghyd-destun Canllaw Llywodraeth Cymru ar [Fwlio yn yr ysgol](#)

## 2. Pwrpas a Nod

- Sicrhau nad oes yr un plentyn yn amharu mewn unrhyw ffordd ar hapusrwydd a datblygiad addysgiadol unrhyw blentyn arall o fewn yr ysgol, drwy greu awyrgylch ddiogel a hapus i'r holl ddisgyblion, ym mhob sefyllfa yn ystod eu gweithgareddau ysgol.
- Creu awyrgylch lle mae bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol. Pe bai achos o fwlio'n digwydd dylai'r plant allu dweud, a bod yn hyderus yr ymdrinnir â'r mater yn ddiymdroi ac yn effeithiol. Cymell unrhyw un sydd yn ymwybodol bod bwlio yn digwydd, i ddweud wrth y staff.
- Argyhoeddi rhieni bod lles y plant yn flaenoriaeth a'u bod yn cael eu haddysgu mewn awyrgylch diogel a chydweithio gyda hwy i atal bwlio.
- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu dileu neu leihau'r anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu

## 3. Amcanion

Bydd yr ysgol yn:

- gweithredu'n rhagweithiol i atal bwlio,
- gweithredu polisi gwrth-fwlio ysgol gyfan, sydd yn gyfarwydd i holl staff yr ysgol, i'r disgyblion, rhieni a Llywodraethwyr,
- creu awyrgylch ac ethos lle mae bwlio'n annerbyniol a chymell disgyblion i adrodd ar unrhyw achos o fwlio, gan argyhoeddi dioddefwyr y bydd yr ysgol yn gweithredu i'w cadw'n ddiogel,
- codi ymwybyddiaeth staff, disgyblion a rhieni o beth yw bwlio, o arwyddion a symptomau bwlio ac o'r camau priodol i'w dilyn mewn achos o fwlio neu gyhuddiad o fwlio ([gweler Atodiad 1](#)).
- hybu hunan-barch pob plentyn a pharch at gyfoedion ac oedolion
- gweithio mewn partneriaeth â rhieni er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol pe cyfyd achos o fwlio neu gyhuddiad o fwlio.
- codi hyder a ffydd y plant a'r rhieni yn nulliau'r ysgol o ymdrin â bwlio

## 4. Bwlio

Caiff Bwlio ei ddiffinio fel ymddygiad ymosodol neu sarhaus gan unigolyn neu grŵp, sy'n aml yn cael ei ailadrodd dros gyfnod, sy'n creu dolur neu niwed yn fwiadol. Mae ymchwil yn dangos y gall bwlio gael effaith ddinistriol ar fywydau pobl ifanc. I rai, gall greu effeithiau tymor hir sy'n achosi gofid a niwed i ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

## 4.1 Beth yw Bwlio?

Mae'r ysgol yn defnyddio'r diffiniad o fwlio, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru;

**'Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir dros gyfnod amser, sy'n brifo eraill naill ai'n fwriadol neu'n emosiynol.'**

Mae hefyd yn disgrifio nifer o elfennau nodedig sy'n gysylltiedig â bwlio. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- **Bwriad i niweidio** – mae bwlio'n fwriadol gyda'r bwriad o achosi niwed. Mae'r rhai sy'n ymddwyn fel bwli yn dda am wybod yn union sut i fychanu neu frifo eu targed, gan bigo ar agweddau allweddol o'u hymddangosiad, personoliaeth neu hunaniaeth er mwyn cael yr effaith a ddymunir. Maent yn chwilio am y maes y mae ganddynt bŵer dros eu targed.
- **Canlyniad niweidiol** – mae rhywun neu grŵp yn cael ei frifo'n gorfforol neu'n emosiynol. Gallant gael eu hynysu, eu bychanu neu eu gwneud yn ddagreuol. Mae eu hymdeimlad o hunanwerth yn lleihau.
- **Gweithredoedd uniongyrchol neu anuniongyrchol** – gall bwlio gynnwys ymosodol yn uniongyrchol fel taro rhywun, yn ogystal â gweithredoedd anuniongyrchol megis lledaenu sïon, datgelu gwybodaeth breifat am rywun neu rannu delweddau personol gyda phobl nad oedd y wybodaeth/delweddau wedi'u bwriadu ar eu cyfer.
- **Ailadrodd** – mae bwlio fel arfer yn golygu ymddwyn yn negyddol neu ymddwyn yn ymosodol dro ar ôl tro. Nid yw gweithred ymosodol ynysig, fel ymladd, yn cael ei hystyried fel arfer yn fwlio. Ond gall unrhyw ddigwyddiad fod yn ddechrau ar batrwm o ymddygiad bwlio sy'n datblygu wedi hynny. Dyna pam mae cofnodi digwyddiadau mor werthfawr.
- **Pŵer Anghyfartal** – mae bwlio'n golygu camddefnyddio grym gan un person neu grŵp sydd (yn cael eu hystyried) yn fwy pwerus yn aml oherwydd eu hoed, cryfder corfforol, poblogrwydd neu wytnwch seicolegol

Gall bwlio ddigwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys:

**Corfforol** – cicio, baglu rhywun neu ei wthio, anafu rhywun, difrodi ei eiddo neu wneud ystumiau bygythiol

**Llafar** – gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu fygwth

**Emosiynol** – ymddwyn gyda'r bwriad o ynysu, niweidio neu fychanu rhywun

**Anuniongyrchol** – cyfrwys a dan din, tu ôl cefn y targed, lledaenu sïon

**Ar-lein** – defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apps i'w bwlio drwy gyfrwng tecst, negeseuon, delweddau neu fideo.

**Ymosodedd perthynol** – bwlio sy'n ceisio niweidio perthnasoedd neu statws cymdeithasol y targed: mynd â'u ffrindiau ffrindiau oddi arnynt, ecsbloetio anghenion addysgol arbennig (AAA) neu salwch hirdymor person, targedu statws cymdeithasol eu teulu, ynysu neu fychanu rhywun neu cael rhywun i drafferth yn fwriadol

**Rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, awgrymiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, sef 'pornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o ddelweddau personol, cignoeth o'r dysgwr a dargedir

**Rhagfarnllyd** – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gellid cysylltu hyn â stereoteipiau neu ragdybiaethau ynghylch hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig. (Gan gynnwys oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) Gall ac mae rhagfarn hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r

nodweddion gwarchoddedig a gall arwain at fwlio am amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefnidir.

## 4.2 Beth sydd ddim yn fwlio?

Nid yw ambell i ymddygiad, er yn annerbyniol, yn cael ei ystyried yn fwlio. Dylid Ymdrinnir â'r achosion hyn yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol i atal digwyddiad a allai waethygu i fod yn fwlio.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn achosion na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried yn fwlio;

**Ffraeo â ffrindiau** – gall dadl rhwng ffrindiau, fodd bynnag, ddirywio yn ymddygiad bwlio sy'n cael ei alluogi gan y ffaith bod gan gyn-ffrindiau wybodaeth fanwl am ofnau ac ansicrwydd ei gilydd. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu targedu gan gyn-gyfeillion yn teimlo'r bradychiad yn ddwfn ac yn aml wedi eu hynysu oddi wrth eu grŵp o ffrindiau blaenorol.

**Achos unigol o ymladd** – eir i'r afael â hyn yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol oni bai ei fod yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n arwydd o dargedu unigolyn arall yn fwriadol.

**Dadl neu anghytundeb** – yn gyffredinol, nid yw dadl rhwng dau blentyn neu bobl ifanc yn cael ei hystyried yn fwlio. Serch hynny, efallai y bydd arnynt angen cymorth i ddysgu parchu safbwyntiau pobl eraill.

**Ymosodiad corfforol untro** – bydd hyn yn cael ei atal a rhoddir sylw iddo ar unwaith. Mewn achosion lle mae ymosodiad corfforol wedi digwydd, gall cynnwys yr heddlu fod yn briodol hefyd.

**Sylwadau sarhaus a chellwair** – bydd plant a phobl ifanc yn aml yn protestio mai jôc neu gellwair oedd y digwyddiad. Os yw dau ffrind o rym cyfartal yn yr arferiad o gellwair â'i gilydd, nid yw'n cael ei ystyried yn fwlio. Os yw un dysgwr yn defnyddio cellwair i fychanu neu fygwth rhywun arall nad oes ganddo'r grym i'w atal a'i wneud yn ofnus gan y weithred, mae'r ffin rhwng cellwair a bwlio yn debygol o gael ei chroesi

**Un digwyddiad o drosedd gasineb** – oni bai bod yr ymddygiad hwn yn cael ei ailadrodd ni fyddai fel arfer yn cael ei ystyried yn fwlio ond byddai'n ymddygiad troseddol, a byddai'r ysgol yn ymdrin ag ef yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol a pholisïau perthnasol eraill, megis polisi 'Atal' yr ysgol. Os ystyrir bod angen hynny, byddai angen i'r ysgol gynnwys yr heddlu hefyd.

### Mae ein hymagwedd ysgol gyfan at atal bwlio yn cynnwys:

- Mabwysiadu dulliau ataliol o ymdrin â bwlio.
- Datblygu ethos cadarnhaol sy'n cynnwys gwybod bod bwlio'n annerbyniol.
- Disgwyl ymddygiad cadarnhaol sy'n helpu ac yn cefnogi dysgu a datblygu.
- Hyrwyddo cydweithrediad a disgwyl ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.
- Annog y gwylwyr sy'n dyst i fwlio i weithredu'n gadarnhaol drwy rybuddio staff a dwyn pwysau ar y cyd gan gyfoedion i atal cyflawnwyr.
- Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, sgiliau a thalentau pawb.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwytnwch drwy wasanaethau, Amser Cylch, ABCh, y rhaglen Ysgolion Iach, datblygu sgiliau, addysgu strategaethau ymdopi personol i ddisgyblion, Cyfranogiad Cynghorau Ysgol, cynlluniau Cyfeillio. KiVa a Mentora gan Gyfoedion.
- Cynnwys ein SHCY dynodedig yr Heddlu yn y gwaith o gyflwyno rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.
- Dangos parch at eraill a herio ac addysgu am iaith amhriodol sy'n;
  - hiliol
  - homoffobig
  - rhywiaethol
  - sydd â rhagfarn grefyddol,
  - ysgogir gan anabledd,

- neu a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwyddus neu'n ddifrifol gan unrhyw grwpiau gwarchoddedig a enwir yn y ddeddf cydraddoldeb.
- Sicrhau bod yr wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bawb yng nghymuned yr ysgol.
- Cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol wrth gynllunio/ gweithredu'r polisi.
- Bod pob aelod o staff yn modelu ymddygiadau cadarnhaol priodol drwy esiampl.

## 5. Atal Bwlio

Bydd yr ysgol yn ceisio gweithredu'n rhagweithiol yn yr ymgyrch i atal bwlio, drwy ddilyn y Canllawiau isod:

### 5.1 Trafodir bwlio ar sawl lefel drwy'r ysgol:

- Ysgol gyfan, (e.e. gwasanaethau, Cyngor Ysgol, Rheolau Aur, cytundebau atal bwlio, cyflwyniadau dramatig).
- Dosbarth, (e.e. Iechyd a Lles, Cyngor Dosbarth, Hafon/Hafod/Ganolfan). Hybir cydweithredu mewn gwersi drwy weithgareddau pâr/grŵp.
- Unigol, (e.e. cefnogaeth ychwanegol i ddisgybl sydd yn profi neu wedi cael ei fwlio).
- Cyflwyniadau gan asiantaethau allanol.

**5.2** Anogir disgyblion i siarad gydag aelodau staff am achosion o fwlio y maent hwy neu eraill yn ei ddiodeff. Bydd y staff yn ymateb yn bositif ac yn sicrhau'r dioddefwr fod y gŵyn yn cael ei chymryd o ddifrif ac y gweithredir arni.

**5.3** Bydd y staff yn sensitif i arwyddion o fwlio, gan ystyried y gall y bwli ymddwyn yn y tymor byr neu hir, yn eiriol, yn ystumiol neu'n gorfforol, yn slei neu'n amlwg.

**5.4** Sicrheir goruchwyliaeth ofalus bob amser, yn enwedig mewn ardaloedd ac ar amseroedd lle gall bwlio ddigwydd. Sicrheir presenoldeb cyfeillgar ac anffurfiol wrth oruchwyllo ar y buarth.

**5.5** Anogir rhieni i hysbysu'r ysgol yn syth os tybient fod eu plentyn yn diodeff o fwlio. Yn yr un modd, anogir rhieni i hysbysu'r ysgol os ydynt yn amau bod eu plentyn hwy yn bwlio eraill. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref yn bwysig.

## 6. Ymateb i Achos o Fwlio

**6.1** Os tybir bod plentyn yn cael ei fwlio, dylid tynnu sylw'r Pennaeth/Dirprwy i'r mater yn syth a chofnodi'r digwyddiad/cyhuddiad ar MyConcern. Bydd achosion neu gyhuddiadau o fwlio yn cael eu hymchwilio'n syth a gwneir pob ymdrech i roi terfyn ar y bwlio rhag blaen ac i sicrhau diogelwch y diodeffwr. Bydd yr ysgol yn ymateb mewn modd sydd yn gyfatebol i ddifrifoldeb y digwyddiad/cyhuddiad ac yn unol â Pholisi Ymddygiad yr Ysgol.

**6.2** Mewn rhai achosion, gwahoddir y rhieni i drafod y mater ac i gytuno ar y dull priodol o weithredu. Mewn achosion mwy difrifol, ymgynghorir â chadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Corff Llywodraethu cyfan, gan weithredu ar eu hargymhellion. Mewn achosion difrifol, gwahoddir Swyddog Lles yr Awdurdod Lleol i drafod y sefyllfa a gweithredu arno.

**6.3** Ymdrinnir yn sensitif â'r diodeffwr. Gwrandewir yn ofalus ar yr hyn y mae'n ei ddweud, cynigir cysur a chynghor a cheisir addysgu strategaethau iddo i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd o fwlio. Fe'i sicrheir ei fod wedi gwneud y peth iawn wrth ddweud ac nad arno ef mae y bai am ymddygiad y bwli.

- 6.4 Ymdrinnir â'r bwli mewn modd sensitif a chadarnhaol. Rhoddir ar ddeall iddo ei fod wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol ac anogir ef i newid ei ymddygiad. Trafodir y rheolau y mae wedi'u torri a cheisir codi ei ymwybyddiaeth o sefyllfa'r dioddefwr. Gellir gofyn i'r bwli ymddiheuro ac ymdrechir i gymodi'r disgyblion, os yn bosibl.
- 6.5 Penderfynir ar gosb i'r bwli, gan esbonio pam y'i rhoddir. Mewn amgylchiadau difrifol, rhaid ystyried gwahardd neu ddiarddel y bwli.
- 6.6 Wedi'r digwyddiad, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro i sicrhau nad yw'r bwlio'n ailgychwyn.

## 7. Monitro achosion o fwlio

Yn unol â 6.1 uchod, bydd yr ysgol yn cofnodi pob achos o fwlio ac yn defnyddio MyConcern i fonitro.

Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn adroddiad blynyddol ar achosion/digwyddiadau o fwlio yn yr ysgol ac yn monitro'r sefyllfa.

## 8. Cefnogaeth gan yr AALI

### 8.1 Y Gwasanaeth Lles

Mae'r Gwasanaeth Lles wedi ymrwymo i sicrhau fod bob plentyn yn cael cyfle i dderbyn addysg mewn awyrgylch sydd yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw fath o fwlio, bygythiad neu aflonyddu.

Pan yn briodol, bydd y Gwasanaeth Lles yn ymwneud ag achosion unigol gan anelu i ddatrys y sefyllfa sy'n poeni'r person ifanc trwy:

- sicrhau bod ysgolion yn cadw at unrhyw bolisi perthnasol.
- adnabod ffactorau sy'n gefndirol i'r bwlio
- weithredu fel cyfryngwr annibynnol
- gefnogi pobl ifanc sy'n cael eu bwlio
- ddarparu cyngor arbenigol i ysgolion, rhieni a disgybl

### 8.2 Y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Y mae athrawon cynradd ar gael i ymweld ag ysgolion i drafod achosion penodol efo penaethiaid / athrawon dosbarth / disgyblion. Yn benodol ar gyfer y sector cynradd ceir pecynnau "Buarth Braf" ar gael i ysgolion sy'n rhoi sylw i'r pwnc.

Y mae'r Gwasanaeth yn cyfeirio at fwlio yn ystod Hyfforddiant Mewn Swydd gyda chymorthyddion ac athrawon er mwyn trafod:

- pam fod plant yn bwlio
- adnabod yr arwyddion fod plant yn cael eu bwlio.

### 8.3 Y Seicolegydd Addysg

Y mae gwasanaeth cwnsela ar gael gan y Seicolegwyr Addysg. Gall cwnselydd gynorthwyo dioddefwr neu fwli i ystyried ffyrdd iachach o ffurfio cysylltiadau ac i edrych ar faterion yn ymwneud â dicter a goddefoldeb. Gellir hefyd ymdrin â diffyg hunan-dyb, ymddiriedaeth a hyder. Gall cwnsela fod yn ddefnyddiol i sefydlu patrymau meddwl mwy cadarnhaol ac i ymchwilio i ambell i gred afiach.

## 8.4 Y Cynllun 'Ysgolion Iach'

Mae cynllun 'Ysgolion Iach' Gwynedd yn cael ei reoli mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Cyngor Gwynedd, CYNNAL a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r cynllun yn galluogi ysgolion i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles eu disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

Mae 'Ysgolion Iach' yn cyflwyno agweddau iechyd a lles drwy'r

- Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cwricwlwm amgen ac ethos ysgol
- Datblygu ar y cysylltiadau sydd yn bodoli eisoes rhwng y cartref, y gymuned ac asiantaethau arbenigol.

## 9. CASGLIADAU

Mae bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol yma ac mae strategaethau pendant yn eu lle i ddelio ag unrhyw achlysur o fwlio a allai godi.

Rhaid gweithredu yn amserol i achosion neu i gyhuddiadau o fwlio.

Er mor bwysig ydyw i ymateb yn bositif at y dioddefwr, rhaid gochel rhag bod yn or-amddiffynnol a'i addysgu i ddatblygu strategaethau i'w amddiffyn ei hun rhag cael ei fwlio.

Ni ellir anwybyddu digwyddiadau y tu allan i'r ysgol, gan eu bod yn gallu gorlifo'r ddwy ffordd. Rhaid ymateb yn briodol wrth ystyried difrifoldeb y cyhuddiad/digwyddiad.

Mae cydweithrediad rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig; rhaid argyhoeddi rhieni bod yr ysgol yn barod pob amser i drafod eu pryderon. Os cyfyd achosion pan fydd rhieni'n teimlo nad yw'r ysgol wedi delio'n effeithiol gydag achos o fwlio, gofynnir iddynt ddwyn y mater i sylw'r Pennaeth. Os na all y Pennaeth ddelio â'r mater yn anffurfiol, gall y rhieni ddilyn trefn gwyno ffurfiol yr ysgol a nodir yn y Polisi Delio â Chwynion.

## ATODIAD 1 – CANLLAWIAU I ATHRAWON

### MATHAU O FWLIO

Mae sawl math o fwlio yn gallu digwydd:

- Emosiynol, e.e. bod yn gas, eithrio, poenydio
- Geiriol, e.e. galw enwau, gwatwar, dweud celwydd, profocio
- Corfforol, e.e. gwthio, cicio, taro neu unrhyw ddefnydd o drais
- Hiliol, e.e. gwawdio, graffiti
- Seiber, e.e. y rhyngwrwyd, ffôn symudol, camera a fideo
- Rhywiol, e.e. sylwadau neu gyffyrddiadau amhriodol
- Homoffobig, e.e. y defnydd o ieithwedd homoffobig

### ARWYDDION A SYMPTOMAU O FWLIO

Dylai oedolion fod yn effro i arwyddion o fwlio, gan ymchwilio ymhellach os yw plentyn yn:

- anhapus i ddod i'r ysgol
- teimlo'n sâl yn y boreau
- absennol yn aml
- ofni cerdded i neu o'r ysgol
- newid ei arferion
- mynd yn fewnblyg
- mynd yn bryderus
- colli hyder
- dechrau siarad ag atal
- datblygu ystumiau o nerfusrwydd ('nervous tick')
- crio ei hun i gysgu neu'n dioddef o hunllefau
- Gwlychu'r gwely
- colli diddordeb yn ei waith ysgol a thangyflawni
- osgoi mynd i weithgareddau/clybiau/gwersi a.y.b. ar ôl ysgol
- mynd adref gydag offer neu ddillad wedi'u malu neu wedi mynd ar goll
- colli arian cinio a.y.b. yn aml
- sôn am redeg i ffwrdd
- cuddio cleisiau neu farciau
- ymddwyn yn ymosodol neu'n afresymol
- bwlio brodyr neu chwiorydd neu blant llai
- colli chwant bwyd
- ofni defnyddio'r we neu'r ffôn

### YMATEB I ACHOS / GYHUDDIAD O FWLIO

- Nid ydym yn caniatáu bwlio ac mae'r cyfrifoldeb o sicrhau awyrgylch ddi-fwlio yn syrthio ar bob aelod o staff ac ar bob plentyn.
- Bydd yr ysgol yn ymateb mewn modd sydd yn gyfatebol i ddifrifoldeb y digwyddiad/cyhuddiad.
- Bydd y Pennaeth yn cofnodi pob achos o fwlio a'r modd yr ymdriniwyd â'r digwyddiad.
- Byddwn yn cyfweled y rhai sydd yn gysylltiedig yn unigol ac yn gwrando ar eu fersiynau'n ofalus.
- Bydd yr ysgol yn cymryd camau pendant a chadarn os bydd tystiolaeth o fwlio.
- Byddwn yn monitro sefyllfaoedd/cyhuddiadau o fwlio yn ofalus.



## CEFNOGAETH I'R DIODDEFWR

- Cymryd camau di-oed i atal y sefyllfa ac i sicrhau diogelwch y dioddefwr.
- Ei argyhoeddi ei fod yn ddiogel ac yr ymdrinnir â'r mater yn ddi-oed.
- Ei argyhoeddi mai dweud oedd y peth cywir i'w wneud a'i annog i adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau pellach.
- Ceisio canfod difrifoldeb y digwyddiad/cyhuddiad.
- Dangos cydymdeimlad ac empathi.
- Cyd-drafod sut i geisio datrys y broblem.
- Sicrhau'r dioddefwr nad yw'n haeddu cael ei fwlio ac nad arno ef mae'r bai.
- Os yn briodol, annog y bwli a'r dioddefwr i gyfarfod ac i drafod. Sicrhau bod oedolyn yn ganolwr.
- Trafod strategaethau i osgoi digwyddiadau pellach.
- Cynghori ar sut i ymddwyn yn bendant.
- Cefnogaeth grŵp, (ffrindiau a chyfoedion).
- Sicrhau goruchwyliaeth a monitro gofalus.
- Cydweithio gyda'r rhieni.

## YMDRIN Â'R BWLI

- Rhoi neges glir nad yw bwlio o unrhyw fath yn dderbyniol yn yr ysgol a'i fod yn torri rheolau'r ysgol.
- Trafod y rhesymau y tu ôl i'w ymddygiad.
- Ei annog yn gryf i newid ei ymddygiad a chynnig modelau derbyniol.
- Gwobrwyo ymddygiad positif.
- Os yn briodol, annog y bwli a'r dioddefwr i gyfarfod ac i drafod. Sicrhau bod oedolyn yn ganolwr.
- Os yn briodol, gofynnir i'r bwlio ymddiheuro.
- Penderfynu ar gosb, gan esbonio pam y'i rhoddir
- Cysylltu â'r rhieni.
- Ei sicrhau y byddwn yn monitro'r sefyllfa a nas oddefir unrhyw fwlio pellach.

## MESURAU PELLACH

- Eithrio o grŵp
- Colli breintiau, e.e. amser aur.
- Gwaharddiad rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd/cynrychioli'r ysgol
- mewn gweithgareddau.
- Mewn achosion eithafol, gwahardd/diarddel o'r ysgol.

## STRATEGAETHAU I ATAL BWLIO

Byddwn yn dilyn y dulliau canlynol i geisio atal bwlio:

- Sicrhau bod rheolau aur yr ysgol yn gyfarwydd i bob disgybl.
- Arwyddo cytundeb atal bwlio.
- Dilyn uned o waith trawsgwricwlaidd ar fwlio yn y gwersi ABCh, (ysgrifennu barddoniaeth, disgrifiadau, arlunio, a.y.b.).
- Darllen storïau a cherddi am fwlio.
- Actio rôl.
- Trafodaethau ac Amser Aur.
- Gwasanaethau torfol.
- Blwch cyfrinachol ym mhob dosbarth.

## 1. Introduction

Every pupil has the right to feel happy, safe and included, and the right to work in an environment without feeling threatened or fearful. The School recognizes the emotional impact that bullying may have on an individual's sense of self-worth and self-confidence, and, consequently on his/her ability to effectively learn. The link between educational attainment, attendance and emotional contentment of children and young people is crucial.

Considerable emphasis is placed on ensuring that pupils feel safe in school for educational as well as moral reasons. The school community promotes an anti-bullying environment.

Bullying of any kind is unacceptable and any victim of bullying will be fully supported.

## 2. Purpose and Objective

- Ensure that no child in any way impairs the happiness and educational development of any other child at the school, by creating a safe and happy environment for all the pupils, in every situation during their school activities
- Create an environment where bullying of any kind is unacceptable. Should an instance of bullying occur, the children should be able to report it, and be confident that the matter will be dealt with immediately and effectively. Encourage anybody who is aware that bullying is taking place to notify the staff
- Persuade parents that the pupils' well-being is a priority and that they are taught in a safe environment, and collaborate with them to prevent bullying.
- Eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited under the Act;
- Advance equality of opportunity between persons who share a relevant protected characteristic and persons who do not share it; this means removing or minimising disadvantages suffered by persons who share a relevant protected characteristic that are connected to that characteristic
- Take steps to meet the needs of persons who share a relevant protected characteristic that are different from the needs of persons who do not share it

## 3. Objectives

The school will:

- take a pro-active approach to prevent bullying
- implement a whole school anti-bullying policy, with which all school staff, pupils, parents and Governors are familiar
- create an environment and ethos where bullying is unacceptable and encourage pupils to report on any instance of bullying, convincing victims that the school will take action to protect them
- raise awareness of staff, pupils and parents of what bullying is, of the signs and symptoms of bullying and of the appropriate measures to follow when bullying occurs or there is an allegation of bullying (see [Appendix 1](#))
- promote every child's self-esteem and respect towards peers and adults
- work in partnership with parents to ensure effective action if there is an instance of bullying or an allegation of bullying
- boost the confidence of pupils and parents in the school's methods of dealing with bullying

## 4. Bullying

Bullying is defined as aggressive or abusive behaviour by an individual or group, that is often repeated over time, and inflicts wilful injury or harm. Research shows that bullying can have a destructive impact on young people's lives. For some, it can create long-term effects that causes distress and harm to social and emotional development.

### 4.1 What is Bullying?

The school uses the definition of bullying, provided by Welsh Government;

**'Behaviour by an individual or a group, usually repeated over time, that intentionally hurts others either physically or emotionally.**

It also describes a number of distinctive elements associated with bullying. These include but are not limited to:

- **An intention to harm** – bullying is deliberate with the intention to cause harm. Those who perpetrate bullying behaviours are skilled at knowing exactly how to humiliate or hurt their target, picking on key aspects of their appearance, personality or identity that produces the effect wanted. They seek out the area in which they have power over the target.
- **Harmful outcome** – someone or a group is hurt physically or emotionally. They can be isolated, humiliated or made tearful. Their sense of self-worth is reduced.
- **Direct or Indirect Acts** – bullying behaviour can involve direct aggression such as hitting, as well as indirect acts such as spreading rumours, revealing private information about someone or sharing intimate images with people for whom the information/images were not intended.
- **Repetition** – bullying usually involves repeated acts of negative behaviour or acts of aggression. An isolated aggressive act, such as a fight, is not usually considered bullying. Yet any incident can be the start of a pattern of bullying behaviour which develops subsequently. That is why incident records are so valuable.
- **Unequal Power** – bullying involves the abuse of power by one person or a group who are (perceived as) more powerful due to their age, physical strength, popularity or psychological resilience

Bullying can take many forms, including:

**Physical** – kicking, tripping someone up or shoving them, injuring someone, damaging their belongings or gestures of intimidation

**Verbal** – taunts and name-calling, insults, threats, humiliation or intimidation

**Emotional** – behaviour intended to isolate, hurt or humiliate someone

**Indirect** – sly or underhand actions carried out behind the target's back or rumour-spreading

**Online** – using any form of technological means, mobile phones, social networks, gaming, chat rooms, forums or apps to perpetrate bullying via text, messaging, images or video

**Relational aggression** – bullying that tries to harm the target's relationships or social status: drawing their friends away, exploiting a person's special educational needs (SEN) or long-term illness, targeting their family's social status, isolating or humiliating someone or deliberately getting someone into trouble

**Sexual** – unwanted touching, threats, suggestions, comments and jokes or innuendo. This can also include sextortion, so called 'revenge porn' and any misuse of intimate, explicit images of the learner targeted

**Prejudice-related** – bullying of a learner or a group of learners because of prejudice. This could be linked to stereotypes or presumptions about identity. Prejudice-related bullying includes the protected characteristics. (Including age, disability, gender reassignment, marriage and civil partnership, pregnancy and maternity, race, religion or belief, sex and sexual orientation) Prejudice can and does also extend beyond the protected characteristics and can lead to bullying for a variety of other reasons such as social status and background.

## 4.2 What is not Bullying?

Some behaviour, though unacceptable, is not considered bullying, these instances will be dealt with in accordance with the school's behaviour policy to prevent an incident potentially escalating to become bullying.

The following examples are cases which would not normally be considered bullying;

**Friendship fallout** – a friendship feud may however deteriorate into bullying behaviour that is enabled by the fact that former friends have an intimate knowledge of the fears and insecurities of one another. Children and young people who are targeted by former friends feel the betrayal deeply and are frequently isolated from their former friendship group.

**One-off fight** – this will be addressed according to the school's behaviour policy unless it is part of a pattern of behaviour that indicates intentional targeting of another individual.

**Argument or disagreement** – between two children or young people is not generally regarded as bullying. Nevertheless they may require assistance to learn to respect others' views.

**One-off physical assault** – this will be stopped and addressed immediately. Police involvement in cases where physical assault has happened may also be appropriate.

**Insults and banter** – children and young people will often protest that an incident was a joke or banter. If two friends of equal power are in the habit of bantering with one another it is not deemed to be bullying. If one learner uses banter to humiliate or threaten another who is powerless to stop it and made fearful by the act, the border between banter and bullying is likely to be crossed

**One-off instance of hate crime** – unless this behaviour is repeated it would not usually be regarded as bullying but it would be criminal behaviour, which the school would deal with in accordance with the school's behaviour policy and other relevant policies, such as the school's 'Prevent' policy. If considered necessary, the school would also need to involve the police.

#### **Our whole school approach to preventing bullying includes:**

- Adopting preventative approaches to bullying.
- Developing a positive ethos which includes knowing bullying is unacceptable.
- Expecting positive behaviour which helps and supports learning and development.
- Promoting co-operation and expecting socially responsible behaviour.
- Encouraging those bystanders who witness bullying to act positively by alerting staff and exerting collective peer pressure to deter perpetrators.
- Valuing and celebrating everyone's differences, skills and talents.
- Supporting the development of emotional literacy, self-esteem and resilience through assemblies, Circle Time, PSE, the Healthy Schools programme, skills development, teaching pupils personal coping strategies, School Council involvement, Buddy schemes. KiVa and Peer Mentoring.
- Active involvement of our designated Police SCPO in the delivery of the all Wales School Liaison Core Programme.
- Showing respect for others and challenging and educating about inappropriate language that is;
  - racist,
  - homophobic,
  - sexist,
  - religiously biased,
  - disability driven,
  - or would be deemed offensive or derogatory by any protected groups named in the equality act.
- Making the information in this policy available to everyone in our school community.
- Involving all members of the school community in designing /implementing the policy.
- All staff modelling appropriate positive behaviours by example.

## 5. Bullying Prevention

The school will try to take a pro-active approach in the bullying prevention campaign, through following these Guidelines:

- 5.1 Bullying is discussed at several levels throughout the school:
  - Whole school, (e.g. assemblies, School Council, Golden Rules, bullying prevention agreements, dramatic presentations)
  - Class, (e.g. PSE, Class Council, confidential box, Hafan/Hafod/Ganolfan). Collaboration in lessons is promoted through pair/group activities.
  - Individual, (e.g. additional support for a pupil who has been, or is being, bullied).
- 5.2 Pupils are encouraged to talk to staff members about instances of bullying that they or others suffer. The staff will respond positively and assure the victim that the complaint is being taken seriously and action taken.
- 5.3 Staff will adopt a sensitive approach towards signs of bullying, bearing in mind that the bully may behave in the long or short term, verbally, through gestures or physically, in a sly or obvious manner.
- 5.4 There is close supervision at all times, particularly in areas and at times where bullying can occur. During playground supervision, there is a friendly and informal presence.
- 5.5 Parents are encouraged to immediately notify the school if they feel that their child is a victim of bullying. Likewise, parents are encouraged to notify the school if they suspect that their child is bullying others. Cooperation between the school and home is important.

## 6. Response to an Instance of Bullying

- 6.1 If there are suspicions that a child is being bullied, the Headteacher/Deputy's attention should immediately be drawn to the matter and the incident/allegation recorded using MyConcern. Instances or allegations of bullying will immediately be investigated and every effort made to bring a stop to the bullying immediately and to ensure the victim's safety. The school will respond in a manner that is proportionate to the seriousness of the incident/allegation and in accordance with the School's Behaviour Policy
- 6.2 In some instances, the parents are invited to discuss the matter and agree on the appropriate course of action. In more serious cases, consultations are held with the Chair of Governors and/or the whole Governing Body, implementing their recommendations. In serious instances, the Local Authority's welfare officer is invited to discuss the situation and act upon it.
- 6.3 The victim is dealt with in a sensitive manner. He/she receives an attentive hearing, is consoled and advised and taught strategies to use when bullying occurs. He/she receives assurance that they have taken the correct course of action by disclosing it, and that they are not to blame for the bully's behaviour.
- 6.4 A sensitive and positive approach is used towards the bully. He/she is informed that the behaviour is unacceptable and is encouraged to change behaviour. The rules that they have broken are discussed and efforts made to make him/her more aware of the victim's situation. The bully may be

asked to apologize and efforts are made to bring about a reconciliation between the pupils, if at all possible.

6.5 What sanction to impose on the bully is decided upon, explaining why it is being imposed. In serious circumstances, suspension or exclusion of the bully must be considered

6.6 Following the incident, the situation will be monitored to ensure that the bullying does not re-occur.

## **7. Monitoring incidents of bullying**

In accordance with 6.1 above, the school will record all incidents of bullying and monitor them on MyConcern

An annual report on incidents of bullying in the school will be given to the Governing Body in order for them to monitor the situation as needed.

## **8. LEA Support**

### **8.1 The Welfare Service**

The Welfare Service is committed to ensuring that every child has an opportunity to be educated in a safe environment and free from any type of bullying, threat or harassment.

When appropriate, the Welfare Service will be involved with individual cases, aiming to resolve the situation that concerns the young person through:

- ensuring that schools adhere to any relevant policy
- recognising factors that form the backdrop to the bullying
- acting as an independent mediator
- supporting young people who are victims of bullying
- providing specialist advice for schools, parents and pupil

### **8.2 The Behavioural Support Service**

Primary teachers are available to visit schools to discuss specific cases with headteachers / class teachers / pupils. Specifically for the primary sector there are “Buarth Braf” packs available for schools that focus on the subject.

The Service mentions bullying during INSET with assistants and teachers to discuss:

- why children bully
- recognising the signs that children are being bullied.

### **8.3 The Educational Psychologist**

The Educational Psychologists provide a counselling service. A counsellor can assist a victim or bully to consider gentler ways of forging contacts and to explore anger and tolerance related matters. Lack of self-esteem, trust and confidence can also be dealt with. Counselling can be useful to establish more positive thought patterns and to explore some unhealthy beliefs.

### **8.4 The ‘Healthy Schools’ Scheme**

Gwynedd ‘Healthy School’s scheme is managed in partnership with Wales National Public Health Service, Gwynedd Council, CYNNAL and the Local Health Board. The scheme enables schools to make a positive

contribution to their pupils, teachers and the wider community's health and well-being, through developing a health promoting environment.

'Healthy Schools' introduce health and well-being aspects through the

- National Curriculum
- Alternative curriculum and school ethos
- Develop existing links between the home, the community and specialist agencies.

## 9. CONCLUSIONS

Any kind of bullying is unacceptable and there are firm strategies in place to deal with any instance of bullying that could arise.

Immediate action must be taken to deal with instances or allegations of bullying.

Although it is important to positively respond to the victim, taking an over-protective stance should be avoided and teach him/her to develop self-protective strategies against being bullied.

Incidents that occur outside the school premises cannot be ignored, as they may spill over in both directions. There should be an appropriate response when considering the seriousness of the allegation/incident.

Co-operation between the home and the school is important; parents must be persuaded that the school is always ready to discuss their concerns. In instances where parents feel that the school cannot effectively deal with an instance of bullying, they are asked to bring this to the Headteacher's attention. If the Headteacher is unable to informally deal with the matter, the parents can pursue the school's formal complaints procedure as defined in the School Complaints Policy.

## **APPENDIX 1 – GUIDELINES FOR TEACHERS**

### **TYPES OF BULLYING**

Several types of bullying may occur:

- Emotional, e.g. being nasty, ostracise, harassment
- Verbal, e.g. name calling, ridiculing, telling fibs, provoking
- Physical, e.g. pushing, kicking, striking or any use of violence
- Racial, e.g. belittling, graffiti
- Cyber, e.g. the internet, mobile phone, camera and video
- Sexual, e.g. inappropriate comments or touching
- Homophobic, e.g. use of homophobic diction

### **SIGNS AND SYMPTOMS OF BULLYING**

Adults should be vigilant to signs of bullying, holding further investigations if a child:

- Is unhappy to attend school
- feels ill in the mornings
- frequently absent
- afraid to walk to or from school
- changes habits
- becomes introverted
- becomes anxious
- loss of confidence
- starts to speak with a stammer
- develops a 'nervous tick'
- cries himself/herself to sleep or has nightmares
- Bed wetting
- loses interest in school work and under-achieves
- avoids attending after school activities/clubs/lessons etc.
- goes home with damaged or missing clothing or belongings
- frequently loses dinner money etc.
- talks about running away
- conceals bruising or marks
- aggressive or unreasonable behaviour
- bullies brothers or sisters or younger children
- loses appetite
- is fearful of using the internet or telephone

### **RESPONDING TO AN INSTANCE / ALLEGATION OF BULLYING**

- Ysgol Botwnnog does not tolerate bullying and all staff members and every pupil have a responsibility to ensure an environment that is free from bullying
- The school will respond in a manner that is proportionate to the seriousness of the incident/allegation
- The Headteacher will record all instances of bullying and how the incident was dealt with
- We will interview those responsible individually and carefully listen to their version of events
- If there is evidence of bullying, the school will take definite and firm action
- Bullying situations/allegations will be closely monitored.



## **VICTIM SUPPORT**

- Take immediate preventative action and ensure the victim's safety
- Assure him/her that they are safe and that the matter will be dealt with immediately
- Assure him/her that they did the right thing by disclosing it, and encouraging them to report any further incidents
- Try to ascertain the seriousness of the incident/allegation
- Show sympathy and empathy
- Jointly discuss how to resolve the problem
- Assure the victim that he/she does not deserve to be bullied and that they not to blame
- If appropriate, encourage the bully and victim to meet and discuss. Ensure that an adult acts as mediator
- Discuss strategies to avoid further incidents
- Advise on assertive behaviour
- Group support, (friends and peers)
- Ensure careful supervision and monitoring
- Work with the parents.

## **DEALING WITH THE BULLY**

- Give a clear message that bullying of any kind is unacceptable at the school and that he/she is breaking the school rules
- Discuss the underlying reasons for his/her behaviour
- Strongly urge him/her to alter their behaviour and offer acceptable models
- Reward positive behaviour
- If appropriate, encourage the bully and victim to meet and discuss. Ensure that an adult acts as mediator
- If appropriate, the bully is asked to apologize
- Decide on a punishment, explaining why it is being administered
- Contact the parents
- Assure him/her that we will monitor the situation and that no further bullying will be tolerated.

## **ADDITIONAL MEASURES**

- Withdrawal from a group
- Loss of privileges, e.g. golden time
- Exclusion from participation in extra-curricular activities/representing the school in activities
- In exceptional cases, exclusion/expulsion from school.

## **BULLYING PREVENTION STRATEGIES**

We will pursue the following methods to try to prevent bullying:

- Ensure that every pupil is familiar with the school's golden rules
- Sign a bullying prevention agreement
- Follow a unit of cross-curricular work on bullying in the PSE lessons, (poetry writing, descriptions, art, etc.)
- Read stories and poems about bullying
- Role play
- Discussions and Golden Time
- Collective Assemblies
- Confidential Box in every class